Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**2.30 y.h., DYDD GWENER, 17EG MEDI, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10/09/21)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portfolio |
| Hedd Vaughan Evans | Rheolwr Gweithrediadau |
| Sheryl Le Bon Jones | Uwch Swyddog Gweithredol Dros Dro |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL — 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn fel rhai cywir:-

- 30 Gorffennaf, 2021
- 26 Awst, 2021 (Cyfarfod Arbennig)

## 5. ADOLYGIAD ASESIAD RHAGLEN 2021 — 12 - 31

Adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio.

## 6. DIWEDDARIAD LOGO — 32 - 34

Adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio.

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r

adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 8. DIWEDDARIAD I ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO 2021

Adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio (adroddiad wedi'i gylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn unig).

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# DYDD GWENER, 30 GORFFENNAF 2021

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes), George Fisher (Coleg Cambria) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) ac Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L. Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Elgan Roberts (Rheolwr Prosiect Ynni), Kirrie Moore (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol), Sara Jones (Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol), Catherine Evans (Swyddog Prosiect Digidol), Cath Morris-Roberts (Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogaeth), Elin Angharad Evans (Rheolwr Prosiect Graddedig Sgiliau Cyflogaeth), Geralt Llewelyn Jones (Menter Môn), John Jenkins (Menter Môn), Annes Sion (Arweinydd Tim Democratiaeth – Awdurdod Lletya) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Awdurdod Lletya).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Cyng. Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Yana Williams (Coleg Cambria) a Jane Richardson.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o Fuddiant Personol gan Dafydd Evans ar gyfer eitem 8 – gan ei fod yn gais sydd yn ymwneud â Grŵp Llandrillo Menai ac felly bu iddo ymatal o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr achos busnes.

Derbyniwyd datganiad o Fuddiant Personol gan yr Athro Paul Spencer ar gyfer eitem 9 – gan fod y cais yn ymwneud â Prifysgol Bangor, ac felly bu iddo ymatal o'r Cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr achos busnes.

Derbyniwyd datganiad o Fuddiant Personol gan Askar Sheibani ar gyfer eitem 9 gan ei fod yn rhan o'r cais ac felly bu iddo ymatal o'r cyfarfod ar y drafodaeth ar achos busnes.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2021 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan Evans, Rheolwr Gweithrediadau

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd a derbyniwyd yr Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio a oedd wedi ei ddiweddaru.

Cymeradwywyd cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2020 bu i'r Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod fformat yr adroddiad yn debyg i'r adroddiadau blaenorol sydd wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais. Rhoddwyd trosolwg o'r cynnydd ar raglenni a prosiectau'r Cynllun Twf. Eglurwyd mai Morlais oedd yr Achos Busnes Amlinellol cyntaf i gael ei ystyried ai gymeradwyo gan y Bwrdd a nodwyd fod y broses sicrwydd wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mynegwyd fod dau Achos Busnes Amlinellol arall wedi cychwyn y broses gymeradwyo, ac yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn hwyrach yn y cyfarfod.

Nodwyd fod mwyafrif o'r rhaglenni a prosiectau yn adrodd fel 'Ambr' yn yr adroddiad yn dilyn adolygiad ar yr amserlenni datblygu achosion busnes. Tynnwyd sylw at y pedwar sydd yn adrodd yn 'goch' sef Ffibr Llawn mewn safleoedd allweddol, Campws Cysylltiedig, Safle Strategol Bodelwyddan a Porth Caergybi. Eglurwyd eu bod yn adrodd fel 'coch' o ganlyniad i risgiau yn sgôp y prosiectau neu oedi sylweddol yn yr amserlenni.

Mynegwyd fod nifer o weithgareddau Caffael bellach wedi ei cwblhau a oedd yn cynnwys Astudiaeth i gefnogi prosiect Coridorau Cysylltiedig. O ran cofrestr risg y portffolio nodwyd fod y proffil risg y Cynllun yn sefydlog. Amlygwyd fod risg ar fforddiadwyedd wedi cynyddu o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn costau adeiladu dros y misoedd diwethaf. Eglurwyd fod hyn wedi effeithio Cytundebau Twf a Threfi eraill ac yn cael ei fonitro. Amlygwyd yn ogystal fod rhai risgiau sylweddol yn gysylltiedig a rhai prosiectau unigol ynghyd â diogelu y buddsoddiad sector breifat yn y Cynllun.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd o ran costau adeiladu yn codi yn y misoedd diwethaf amlygwyd yr angen i amlygu'r problem i'r Llywodraethau cyn i gostau gael eu cadarnhau. Eglurwyd fod y Llywodraethau yn ymwybodol ac fod y cynllun gyda rhywfaint

o fantais gyda digon o amser cynllunio sydd yn rhoi cyfle i'r farchnad setlo.
- Holwyd os ydi statws rhai cynlluniau yn goch, a ddim yn symud i ambr neu wyrdd os oes angen holi os yw'r cynllun yn hyfyw. Eglurwyd fod y cynlluniau yn hyblyg ac eu bod yn cael eu datblygu yn unol a parodrwydd ac nid blaenoriaethau.

**6. BRAND A GWEFAN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhawyd y brand newydd arfaethedig ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru yn amodol i addasiadau i'r logo yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Datblygwyd gwefan a brand cyfredol y Bwrdd Uchelgais yn ystod dyddiau cynnar sefydlu'r Bwrdd. Gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi, a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn symud i wedd cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf, mae'n amserol diwygio ac ail-lansio'r brand a'r wefan.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gwefan a brand gyfredol y Bwrdd Uchelgais wedi ei ddatblygu yn ôl yn nyddiau cynnar sefydlu'r Bwrdd. Nodwyd gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi a'r Swyddfa Rheoli Proffil yn symud i wedd cyflawni eglurwyd ei bod yn amserol diwygio ac ail-lansio'r brand a'r wefan. Mynegwyd fod y logo wedi dyddio ac nad yw'n adlewyrchu natur uchelgeisiol y Bwrdd yn nhermau trawsffurfio economi'r Gogledd. Ategwyd fod y wefan ar hyn o bryd wedi ei letya gan Busnes Cymru ac ei fod yn profi yn gymhleth i'w ddefnyddio.

Comisiynwyd Tinint i ail-frandio a datblygu gwefan newydd yn dilyn proses tendro lwyddiannus. Amlygwyd y briff a osodwyd iddynt i amlygu brand ffres, arloesol, uchelgeisiol a proffesiynol ynghyd â gwefan a fyddai'n lwyfan i hyrwyddo'r rhanbarth, gwaith y Bwrdd Uchelgais ac i rannu cynnydd a gwybodaeth am y Cynllun Twf. Cyflwynwyd y brand mae Tinint wedi gweithio i datblygu gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio, eglurwyd fod yr enw brand wedi addasu i "Uchelgais Gogledd Cymru / Ambition North Wales" a fydd yn enw cyffredinol am y Weledigaeth Twf a beth mae'r bwrdd yn ceisio'i i gyflawni ar gyfer y rhanbarth.

Amlygwyd fod ymchwiliad marchnad wedi ei gynnal am y logo a'r brand newydd a cafwyd sampl o 160 unigolyn a oedd yn cael ei rannu i 3 grŵp – Sector Gyhoeddus, Pobl Ifanc a Busnesau. Pwysleisiwyd mai Uchelgais Gogledd Cymru oedd y brand a ffafriwyd yn yr ymchwil i'r farchnad. Cyflwynwyd y Brand, lliwiau a logo a ffafriwyd yn ogystal gan ofyn am gefnogaeth y Bwrdd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-
- Amlygwyd cefnogaeth i'r brand ac yr enw ond tynnwyd sylw at broblem gyda'r logo. Nodwyd er ei fod yn logo haniaethol fod 6 adran iddo fel siroedd y rhanbarth ac fod Conwy i'w weld yn llai nac eraill. Eglurwyd nad oedd yn cynrychioli hynny ond awgrymwyd yr angen i ail edrych ar y maint.
- Dangoswyd cefnogaeth i'r brand a'r wefan gan nodi ei fod yn amlygu fod y cynllun yn llawer mwy na Cynllun Twf.

- Derbyniwyd mewn egwyddor i'r brand a'r lliwiau. Gofynnwyd i'r Swyddfa Rheoli Portffolio i fynd yn ôl at Tinint ac efallai addasu'r logo rhyw fymryn ac yna ei ail gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi.

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Cytunwyd i gau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan eu bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol(yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 8. ACHOS AMLINELLOL PROSIECT CANOLBWYNT ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Robyn Lovelock, Rheolwr Rhaglen.

**TRAFODAETH**

Derbyniwyd y cyflwyniadau ond ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad o ganlyniad i ddiffyg cworwm.

## 9. ACHOS BUSNES AMLINELLOL PROSIECT CANOLFAN PROSESU SIGNAL DIGIDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Stuart Whitfield, Rheolwr Rhaglen Digidol.

**TRAFODAETH**

Derbyniwyd y cyflwyniadau ond ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad o ganlyniad i ddiffyg cworwm.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

**CADEIRYDD**

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD IAU, 26 AWST 2021

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr - Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a'r Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion –Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint).

Swyddogion yn bresennol – Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Refeniw a Risg– Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Sheryl Le Bon (Uwch Swyddog Gweithredol), Kirrie Moore (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth – Awdurdod Lletya) ac Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Awdurdod Lletya).

**1. YMDDIHEURIADAU**

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndwr), Anwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai) a Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o Fuddiant Personol gan yr Athro Iwan Davies ar gyfer eitem 6 – gan fod y cais yn ymwneud â Prifysgol Bangor, ac felly bu iddo ymatal o'r Cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr achos busnes.

Derbyniwyd datganiad o Fuddiant Personol gan Askar Sheibani ar gyfer eitem 6 gan ei fod yn rhan o'r cais ac felly bu iddo ymatal o'r cyfarfod ar y drafodaeth ar achos busnes.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 5. ACHOS AMLINELLOL PROSIECT CANOLBWYNT ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan Evans, Rheolwr Gweithrediadau

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon ac yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Grŵp Llandrillo Menai yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, a gofynnwyd fod Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi i'r Bwrdd ei ystyrid yn dilyn cwblhau'r broses gaffael a'r broses gydsynio.

Dirprwywyd cymeradwyaeth derfynol y fanyleb caffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn trafodaeth cyn i noddwr y prosiect ddechrau caffael.

Cytunwyd ar y cynlluniau cyllido terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn sail i'r llythyr Cynnig Grant ar y cam Achos Busnes Llawn ac yn awdurdodi Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya i gytuno ar delerau drafft i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol â chytundeb y Cynnig Terfynol, bydd achosion busnes yn cael eu datblygu ar gyfer pob prosiect yn y Cynllun Twf yn unol â'r canllawiau 'Better Business Case' a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM.

Mae cael cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r Achos Busnes Amlinellol yn rhoi'r gymeradwyaeth angenrheidiol a fyddai'n galluogi'r prosiect i symud ymlaen i'r rhan nesaf a fyddai, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd, yn golygu bod Achos Busnes Llawn yn cael ei ddatblygu ar gyfer penderfyniad buddsoddi terfynol gan y Bwrdd Uchelgais.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad

## 6. ACHOS BUSNES AMLINELLOL PROSIECT CANOLFAN PROSESU SIGNAL

**DIGIDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan Evans, Rheolwr Gweithrediadau

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon ac yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Grŵp Llandrillo Menai yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, a gofynnwyd fod Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi i'r Bwrdd ei ystyrid yn dilyn cwblhau'r broses gaffael a'r broses gydsynio.

Dirprwywyd cymeradwyaeth derfynol y fanyleb caffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn trafodaeth cyn i noddwr y prosiect ddechrau caffael.

Cytunwyd ar y cynlluniau cyllido terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn sail i'r llythyr Cynnig Grant ar y cam Achos Busnes Llawn ac yn awdurdodi Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya i gytuno ar delerau drafft i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol â chytundeb y Cynnig Terfynol, bydd achosion busnes yn cael eu datblygu ar gyfer pob prosiect yn y Cynllun Twf yn unol â'r canllawiau 'Better Business Case' a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM.

Mae cael cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r Achos Busnes Amlinellol yn rhoi'r gymeradwyaeth angenrheidiol a fyddai'n galluogi'r prosiect i symud ymlaen i'r rhan nesaf a fyddai, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd, yn golygu bod Achos Busnes Llawn yn cael ei ddatblygu ar gyfer penderfyniad buddsoddi terfynol gan y Bwrdd Uchelgais.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 9am a daeth i ben am 9:35am

**CADEIRYDD**

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17 MEDI 2021**

**TEITL:** Adolygiad Asesiad Rhaglen 2021

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno canfyddiadau Adolygiad Asesiad Rhaglen (PAR) 2021.

1.2. Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn destun adolygiad porth allanol blynyddol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn nodi canfyddiadau Adolygiad Asesiad Rhaglen 2021.

2.2. Bod y Bwrdd yn nodi y bydd yr adroddiad yn ffurfio rhan o gyflwyniad dyfarniad cyllid blynyddol 2021-22.

2.3 Bod y Bwrdd yn nodi y bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn datblygu cynllun gweithredu i gyflawni yn erbyn yr argymhellion.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn destun adolygiad porth allanol blynyddol o'r portffolio a'r pum rhaglen.

4.3. Mae Proses Porth yr OGC yn edrych ar raglenni a phrosiectau ar bwyntiau lle gwneir penderfyniadau allweddol yn eu cylch cyflawni. Mae'n edrych i'r dyfodol i ddarparu sicrwydd y gallant fwrw ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf; ystyrir y Broses fel arfer gorau o fewn llywodraeth sifil ganolog ledled y DU.

4.4 Mae Adolygiadau Porth yr OGC yn cyflawni 'adolygiad cymheiriaid', lle bydd ymarferwyr annibynnol o'r tu allan i'r rhaglen/prosiect yn defnyddio eu profiad a'u harbenigedd i edrych ar gynnydd a'r tebygolrwydd o gyflawni'r rhaglen neu'r prosiect yn llwyddiannus. Cânt eu defnyddio i ddarparu safbwynt ychwanegol gwerthfawr ar y materion sy'n wynebu'r tîm mewnol, a her allanol i gadernid y cynlluniau a'r prosesau.

4.5 Cytunwyd gyda Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru y bydd Adolygiad Asesiad Portffolio, Rhaglen a Phrosiect (PAR) blynyddol gan ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Twf.

Canfyddiadau’r adolygiad

4.6 Mae tîm yr adolygiad wedi rhoi asesiad hyder cyflawni o 'Ambr/Gwyrdd' i Gynllun Twf Gogledd Cymru. Dyma'r ail radd uchaf sydd ar gael ac yn welliant ar y radd 'Ambr' a dderbyniwyd yn 2020. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r radd wedi'i grynhoi yn y tabl isod:

<table>
<tr><th><u>Asesiad Hyder Cyflawni:</u></th><th>Ambr/Gwyrdd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Darganfu'r Tîm Adolygu yr ymddengys ei bod hi'n debygol ar y pwynt hwn y caiff Cynllun Twf Gogledd Cymru ei gyflawni'n llwyddiannus. Fodd bynnag, bydd angen sylw parhaus i sicrhau nad yw risgiau yn troi mewn i faterion mawr a fyddai'n bygwth cyflawni:<br>Mae ein hyder yn seiliedig ar y ffactorau a ganlyn:<br>• Cryfder yr arweinyddiaeth<br>• Proffesiynoldeb y PMO a'i digonedd o bersonél profiadol a chymwys<br>• Cydlyniad a chefnogaeth drawiadol y rhanddeiliaid a'r partneriaid<br>• Y ffocws a'r ethos rhanbarthol cryf cyfredol<br>• Y prosesau a'r rheolaethau PPM cadarn sydd yn eu lle<br><br>Mae ein pryderon yn canolbwyntio ar:<br>• Yr ansicrwydd cyfredol ynghylch buddsoddiad y sector preifat a'r diffyg strategaeth cydlynol ar lefel portffolio i adnabod a denu<br>• Risg o effaith andwyol etholiadau awdurdodau lleol, CJCs a'r newid i uwch aelodau/swyddogion<br>• Yr angen am ddull gweithredu cytunedig i adnabod a rheoli prosiectau a allai fod yn anhyfyw</td></tr>
</table>

4.7 Mae’r adroddiad yn cynnwys pum argymhelliad fel y nodir yn y tabl isod:

| Rhif Cyf. | Argymhelliad | Brys | Dyddiad Targed i gwblhau |
|---|---|---|---|
| 1. | Dylai'r Portffolio sefydlu trefn o sganio'r gorwel i adnabod prosiectau newydd posib pe byddai'r rhai cyfredol yn troi'n anhyfyw a rhoi ystyriaeth gynnar i unrhyw newidiadau a fydd eu hangen i brosiectau presennol o newidiadau polisi. Dylid datblygu meini prawf er mwyn pennu nad yw prosiect yn hyfyw mwyach yn eu herbyn. | H- Hanfodol | Erbyn diwedd Rhagfyr 21 |
| 2. | Dylai'r Portffolio ail-sefydlu ei gerrig milltir a'i gynlluniau rhaglenni allweddol cyn gynted â phosib a cheisio cymeradwyaeth. | H - Hanfodol | Diwedd Hydref 2021 |
| 3. | Er mwyn cynnal cworwm ar gyfer penderfyniadau allweddol a chyflawni'r meini prawf cytunedig, dylai aelodau'r Bwrdd Uchelgais sydd â phleidlais sicrhau eu bod yn | H - Hanfodol | Cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Uchelgais |

| Rhif Cyf. | Argymhelliad | Brys | Dyddiad Targed i gwblhau |
|---|---|---|---|
| | penodi dirprwyon. Yn ogystal, dylid cytuno ar fecanwaith "allan o bwyllgor" ar gyfer cymeradwyo materion brys ar gyfer y wedd cyflawni. | | |
| 4. | Dylid datblygu a mabwysiadu strategaeth ar lefel Portffolio er mwyn denu a sicrhau buddsoddiad sector preifat ac arall. | H - Hanfodol | Erbyn diwedd Rhagfyr 2021 |
| 5. | Dylai'r Portffolio adolygu'r risgiau a chanlyniadau'r diffyg arian refeniw ac ystyried sut ellir lliniaru'r effeithiau hyn. | A - Argymhellir | |

4.7 Ni chafodd yr un o'r argymhellion eu labelu'r "C-Critigol" a fyddai wedi bod angen gweithred brys. Ystyrir bod yr argymhellion yn ddefnyddiol ac yn rhesymol gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, a fydd yn datblygu cynllun gweithredu i gyflawni yn erbyn yr argymhellion hyn.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Er nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn, mae cwblhau'r Adolygiad Asesiad Rhaglen yn garreg filltir allweddol gan fod yr adroddiad yn ffurfio rhan o'r cyflwyniad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau'r wedd nesaf o gyllid.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn destun adolygiad porth allanol blynyddol.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad PAR 2021

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
Unrhyw sylwadau i'w cyflwyno yn y cyfarfod.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
"O ran 'Ariannu', rydym yn ymwybodol, fel nodir yn Argymhelliad 5 o dan ran 4.7 o'r adroddiad blaen, ac yn adran 10.6 o Adolygiad Asesu Rhaglenni Llywodraeth Cymru, y bydd cyllid 'ESF' WEFO yn dod i ben yn 2023. Felly, bydd raid i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd gynllunio i sicrhau bod costau rheoli'r portffolio yn fforddiadwy, naill ai trwy leihau ymrwymiadau refeniw erbyn y dyfodol, neu trwy sicrhau ffynhonnell gyllido amgen ychwanegol ar ôl 2023. Hyd yma, canolbwyntiwyd ar sefydlu'r Swyddfa Bortffolio yn weithredol a chyllidebu yn unol â hynny, ond yn ystod 2022 byddaf yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Portffolio i gynhyrchu cynllun ar gyfer y tymor canolig."

# Adolygiad Asesiad Rhaglen (PAR)

| Teitl y Rhaglen: | Cynllun Twf Gogledd Cymru |
|---|---|
| Rhif adnabod IAH: | AH/21/29 |

| | |
|---|---|
| **Rhif y Fersiwn:** | TERFYNOL |
| **Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO)** | Alwen Williams |
| **Dyddiad cyflwyno i'r SRO:** | 11/08/2021 |
| **Adran/Sefydliad y rhaglen** | |
| **Cyfarwyddwr Rhaglen (Rheolwr Gweithrediadau)** | Hedd Vaughan-Evans |
| **Cam Achos Busnes wedi'i gyrraedd:** | Achos Busnes y Portffolio gyda rhaglenni/prosiectau unigol ar y camau Achos Busnes Amlinellol (OBC), Achos Amlinellol Strategol, neu Gysyniad |
| **Dyddiadau adolygu:** | 02/08/2021 hyd 05/08/2021 |
| **Arweinydd y Tîm Adolygu (RT):** | Chris Shoukry |
| **Aelodau'r Tîm Adolygu (RT):** | Richard Farmer<br>Jonathan Davies |
| **Cynrychiolydd Adrannol:** | N/A |
| **Adolygiad Blaenorol:** | Adolygiad PAR Medi 2021<br>DCA Ambr |
| **Dosbarthiad Diogelwch** | Swyddogol |

# Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol3

2. Asesiad Hyder Cyflawni (DCA)3

3. Crynodeb o argymhellion yr adroddiad4

4. Meysydd o arfer dda a gwersi a ddysgwyd6

5. Meysydd sy'n peri pryder6

6. Cydnabyddiaeth6

7. Sylwadau gan yr SRO6

8. Crynodeb o'r Rhaglen/Prosiect7

9. Sgôp/Cylch Gorchwyl yr Adolygiad8

10. Darganfyddiadau manwl y Tîm Adolygu9

11. Adolygiad Sicrwydd nesaf13

ATODIAD A - Rhestr o'r sawl a gawsant eu cyfweld14

ATODIAD B - Cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad sicrwydd blaenorol (24 - 27 Awst 2020)15

---

**Ynghylch yr adroddiad hwn**

Mae'r adroddiad hwn yn gipolwg, ar sail tystiolaeth, o statws y portffolio ar adeg yr adolygiad. Mae'n adlewyrchu barn y tîm adolygu annibynnol, yn seiliedig ar wybodaeth sydd wedi'i harfarnu dros gyfnod yr adolygiad, ac fe'i darperir i'r SRO yn syth ar ddiwedd yr adolygiad.

**Trefnwyd a rheolwyd yr adolygiad sicrwydd hwn gan:**

**Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru (IAH)**
**Parc Cathays 2**
**Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**
**Desg gymorth IAH:** Assurance@gov.wales

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r Portffolio wedi gwneud cynnydd sylweddol a thrawiadol ers yr Adolygiad Sicrwydd Portffolio (PAR) diwethaf, a hynny mewn amgylchiadau heriol. Dylid ei ganmol am gryfder y Swyddfa Rheoli Rhaglen (PMO) sydd bellach wedi'i sefydlu'n llawn ac am y systemau a'r strwythurau PPM cadarn sydd bellach yn eu lle.

Mae'r drefn lywodraethu wedi'i sefydlu'n dda ac mae gan y rhanddeiliaid hyder ynddi. Mae cydlyniad ymhlith yr awdurdodau lleol yn gryf, fel y mae'r ffocws rhanbarthol cyfredol.

Mae'r Portffolio wedi profi rhai heriau wrth ddatblygu achosion busnes ar gyfer y prosiectau ar gyflymder yn erbyn y model 5 achos, ond mae ethos o ddysgu yno ac mae'n gweithredu'r gwersi ar y pryd er mwyn gwella'r broses. Hyd yma, mae tri Achos Busnes Amlinellol (OBC) wedi'u cymeradwyo gydag amserlen wedi'i sefydlu ar gyfer y lleill, ynghyd â'r Achosion Busnes Terfynol (FBC) dilynol.

Bellach mae ar fin cychwyn y brif wedd cyflawni sydd wedi'i hadnabod fel rhywbeth sydd angen newid sylweddol mewn ffocws a'r gofynion ar yr adnoddau ar gyfer y PMO a'r partneriaid.

# 2. Asesiad Hyder Cyflawni (DCA)

| **Asesiad Hyder Cyflawni:** | **Ambr/Gwyrdd** |
|---|---|
| Darganfu'r Tîm Adolygu (RT) yr ymddengys ei bod hi'n debygol ar y pwynt hwn y caiff Cynllun Twf Gogledd Cymru ei gyflawni'n llwyddiannus. Fodd bynnag, bydd angen sylw parhaus i sicrhau nad yw risgiau yn troi mewn i faterion mawr a fyddai'n bygwth cyflawni:<br>Mae ein hyder yn seiliedig ar y ffactorau a ganlyn:<br>• Cryfder yr arweinyddiaeth<br>• Proffesiynoldeb y PMO a'i digonedd o bersonél profiadol a chymwys<br>• Cydlyniad a chefnogaeth drawiadol y rhanddeiliaid a'r partneriaid<br>• Y ffocws a'r ethos rhanbarthol cryf cyfredol<br>• Y prosesau a'r rheolaethau PPM cadarn sydd yn eu lle<br>Mae ein pryderon yn canolbwyntio ar:<br>• Yr ansicrwydd cyfredol ynghylch buddsoddiad y sector preifat a diffyg strategaeth gydlynol ar lefel portffolio i adnabod a denu<br>• Risg o effaith andwyol etholiadau awdurdodau lleol, CJCs a'r newid i uwch aelodau/swyddogion<br>• Yr angen am ddull gweithredu cytunedig i adnabod a rheoli prosiectau a allai fod yn anhyfyw | |

### Dylai statws RAG yr asesiad Hyder Cyflawni ddefnyddio'r diffiniadau isod:

| RAG | Disgrifiad o'r Meini Prawf |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae cyflawni'r prosiect/rhaglen yn llwyddiannus ar amser, cost ac ansawdd yn ymddangos yn hynod debygol ac nid oes unrhyw faterion mawr yn weddill ar y pwynt hwn a allai fygwth cyflawni. |
| **Ambr/Gwyrdd** | Mae cyflawni'n llwyddiannus yn ymddangos yn debygol. Fodd bynnag, bydd angen sylw parhaus i sicrhau nad yw risgiau yn troi mewn i faterion mawr a fyddai'n bygwth cyflawni. |
| **Ambr** | Mae cyflawni'n llwyddiannus yn ymddangos yn ddichonadwy ond mae materion sylweddol eisoes yn bodoli sydd angen sylw'r rheolwyr. Ymddengys ar y pwynt hwn bod modd datrys y rhain ac, os cânt sylw prydlon, ni ddylent olygu unrhyw gostau nac |

| | |
|---|---|
| | effeithio ar yr amserlen. |
| **Ambr/Coch** | Mae amheuaeth ynghylch cyflawni'r prosiect/rhaglen yn llwyddiannus, gyda risgiau a materion mawr yn amlwg mewn nifer o feysydd allweddol. Mae angen gweithredu ar unwaith i sicrhau y rhoddir sylw i'r rhain a sefydlu a yw'n bosib eu datrys. |
| **Coch** | Ymddengys na fydd modd cyflawni'r prosiect/rhaglen yn llwyddiannus. Mae materion mawr yr ymddengys, ar y pwynt hwn, nad oes modd eu rheoli na'u datrys. Mae'n bosib y bydd angen ail-sefydlu a/neu ail-asesu hyfywedd cyffredinol y prosiect/rhaglen. |

## 3. Crynodeb o argymhellion yr adroddiad

Mae'r Tîm Adolygu yn gwneud yr argymhellion a ganlyn a gaiff eu blaenoriaethu gan ddefnyddio'r diffiniadau isod:

| Rhif Cyf. | Argymhelliad | Brys (C/H/A) | Dyddiad targed ar gyfer cwblhau | Dosbarthiad (Nodwch y rhif categoreiddio o'r rhestr a ddarperir yma) |
|---|---|---|---|---|
| 1. | **Dylai'r Portffolio sefydlu trefn o sganio'r gorwel i adnabod prosiectau newydd posib pe byddai'r rhai cyfredol yn troi'n anhyfyw a rhoi ystyriaeth gynnar i unrhyw newidiadau a fydd eu hangen i brosiectau presennol o newidiadau polisi. Dylid datblygu meini prawf er mwyn pennu a yw prosiect yn hyfyw mwyach yn eu herbyn.** | E- Essential | Erbyn diwedd Rhagfyr 21 | Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau<br>3.1 Cynllunio |
| 2. | **Dylai'r Portffolio ail-sefydlu ei gerrig milltir a'i gynlluniau rhaglenni allweddol cyn gynted â phosib a cheisio cymeradwyaeth.** | E- Essential | Diwedd Hydref 2021 | Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau<br>3.1 Cynllunio |
| 3. | **Er mwyn cynnal cworwm ar gyfer penderfyniadau allweddol a chyflawni'r meini prawf cytunedig, dylai aelodau'r Bwrdd Uchelgais sydd â phleidlais sicrhau eu bod yn penodi dirprwyon. Yn ogystal, dylid cytuno ar fecanwaith "allan o bwyllgor" ar gyfer** | E- Essential | Cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Uchelgais | Llywodraethu<br>1.3 Cymeradwyo |

| Rhif Cyf. | Argymhelliad | Brys (C/H/A) | Dyddiad targed ar gyfer cwblhau | Dosbarthiad (Nodwch y rhif categoreiddio o'r rhestr a ddarperir yma) |
|---|---|---|---|---|
| | **cymeradwyo materion brys ar gyfer y wedd cyflawni.** | | | |
| 4. | **Dylid datblygu a mabwysiadu strategaeth ar lefel Portffolio er mwyn denu a sicrhau buddsoddiad sector preifat ac arall.** | E- Essential | Erbyn diwedd Rhagfyr 2021 | Rheolaeth Ariannol a Chynllunio |
| 5. | **Dylai'r Portffolio adolygu risgiau a chanlyniadau diffyg cyllid refeniw ac ystyried sut ellir lliniaru'r effeithiau**. | R - Recommended | | Rheolaeth Ariannol a Chynllunio |

**Critigol (Gwneud Nawr)** - Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ddeilliant llwyddiannus mae hi'n hynod bwysig bod y rhaglen/prosiect yn gweithredu ar unwaith

**Hanfodol (Gwneud Erbyn)** - Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ddeilliant llwyddiannus dylai'r rhaglen/prosiect weithredu yn y dyfodol agos.

**Argymhellir** - Dylai'r rhaglen/prosiect elwa o weithredu'r argymhelliad hwn.

## 4. Meysydd o arfer dda a gwersi a ddysgwyd

PMO wedi'i hadnabod fel enghraifft dda o dryloywder, bod yn agored ac ymgysylltu

Gwaith gwireddu buddion i gefnogi achosion busnes cymhleth

Arweinyddiaeth enghreifftiol

Ymateb cadarnhaol a chadarn i argymhellion y PAR blaenorol

## 5. Meysydd sy'n peri pryder

Diffyg cyfredol cyllid sector preifat sydd wedi'i ymrwymo

Y posibilrwydd o amharu yn sgil ffactorau allanol

## 6. Cydnabyddiaeth

Dymuna’r Tîm Adolygu ddiolch i'r SRO, PMO y Cynllun Twf a phawb a gafodd eu cyfweld am eu cefnogaeth ac am fod yn agored, a wnaeth gyfrannu at ddealltwriaeth y Tîm Adolygu o'r portffolio a deilliant yr adolygiad hwn. Diolch hefyd i Hedd Vaughan-Evans, Lynn Slaven a Nia Medi Williams am eu cefnogaeth weinyddol a logistaidd ardderchog drwy gydol y broses.

## 7. Sylwadau gan yr SRO

Fel SRO, rwyf wedi fy nghalonogi gan asesiad hyder cyflawni'r Adolygiad Portffolio fel Ambr/Gwyrdd.

Mae'r adroddiad a chanfyddiadau'r panel yn rhoi adlewyrchiad teg a chytbwys o'r sefyllfa bresennol ac yn ymateb yn dda i'r pwyntiau a nodwyd yn y cylch gorchwyl cytunedig.

Mae'r pum cam gweithredu a flaenoriaethwyd yn rhoi argymhellion clir, i'w cyflawni yn 2021, ar feysydd ffocws a fydd yn gwella'r tebygolrwydd o gyflawni deilliannau llwyddiannus ar gyfer portffolio'r Cynllun Twf.

Er gwaetha'r heriau a'r gwrthdyniadau nas ragwelwyd o ganlyniad i Covid-19, cydnabyddir ymrwymiad a phenderfyniad y Gogledd fel rhanbarth gydlynol i gyflwyno Achosion Busnes y Portffolio a'r Rhaglenni a chyflawni cytundeb terfynol erbyn Rhagfyr 2020 o fewn naratif yr adroddiad. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod sefydlu'r PMO, gyda'r prosesau, y cyd-drefniant a'r arweinyddiaeth gysylltiedig wedi cefnogi'r rhanbarth yn sylweddol i gyflawni hyn.

Y tu hwnt i'r argymhellion, mae naratif yr adroddiad yn darparu dadansoddiad a myfyrdod llawer dyfnach sy'n gysylltiedig â rhai meysydd risg sydd angen sylw. Mae'r dadansoddiad a'r mewnwelediad hwn drwy 'lygaid ffres' yn rhoi safbwynt gwerthfawr i mi a thîm arweinyddiaeth y PMO a fyddai'n anodd i'w gael heb y broses Adolygu Sicrwydd Portffolio.

Ynghyd ag ymdrin â phroses newydd a sefydlu tîm PMO newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, teimlaf ein bod wedi bod yn ystyriol o gydnabod a rhannu y gwersi yr ydym wedi'u dysgu ar hyd y ffordd, gyda'r bwriad o gefnogi prosiectau rhanbarthol eraill i fod yn llwyddiannus, ond hefyd ein cydweithwyr yn y Canolbarth, i barhau i godi'r bar ar safonau yng Nghymru.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Chris a'r panel adolygu am eu stiwardiaeth ardderchog drwy gydol y broses ac am y gwaith pragmatig a gofalus sydd wedi'i wneud ganddynt ar yr adroddiad a gyflwynwyd a'i argymhellion.

# 8. Crynodeb o'r Rhaglen/Prosiect

## Cefndir a chyd-destun:

Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Bwrdd Uchelgais) yn 2012 ac mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

Yn 2016, mabwysiadodd y Bwrdd Uchelgais Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (y Weledigaeth Twf).   Y Weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu yw datblygu "rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon."

Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol:

**Gogledd Cymru Blaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.

**Gogledd Cymru Gwydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.

**Gogledd Cymru Cysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.

Yn ystod 2017-2019, fe wnaeth y Bwrdd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr y sector preifat, ddatblygu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn seiliedig ar 14 o brosiectau trawsffurfiol, gan sicrhau Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy lywodraeth ym mis Tachwedd 2019.

Roedd Penawdau'r Telerau yn ymrwymo'r holl bartïon i gwblhau Cytundeb Terfynol o fewn 12-15 mis. Llofnodwyd Cytundeb Terfynol (2) ym mis Rhagfyr 2020 gan alluogi i'r Cynllun Twf symud i'r wedd cyflawni lawn.

## Nodau ac amcanion:

Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais adnabod Rhaglenni Strategol o fewn Gweledigaeth Gogledd Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r economi rhanbarthol, ynghyd â manteisio ar y cyfleoedd. Mae'r rhaglenni hyn yn grŵp o brosiectau rhyng-gysylltiedig a rhyng-ddibynnol i'w rheoli mewn ffordd gydlynol, ac maent wedi'u diffinio yng nghyd-destun y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru.

Drwy gyflawni'r rhaglenni hyn ar y cyd, nod y Cynllun Twf yw cyflawni effaith well yn nhermau uchelgais a defnydd o adnoddau yn hytrach na'u cyflawni nhw ar wahân. Bydd chwech o'r rhaglenni hyn yn cael eu cyflawni drwy'r Cynllun Twf. Mae hyn bellach yn cynnwys y rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth, er bod gan y rhaglen hon ffynonellau ariannu gwahanol.  Mae'r rhaglen Trafnidiaeth Strategol yn parhau i eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf a bydd yn cael ei datblygu drwy ffynonellau ariannu eraill.

**Cerrig Milltir Allweddol:**

(darparwyd gan y PMO)

| Carreg Filltir | Dyddiad (dd/mm/bb) |
|---|---|
| Adolygiad Sicrwydd PAR | 2-5 Awst 2021 |
| Cwblhau'r diweddariad i'r Achosion Busnes Portffolio a Rhaglenni | Awst 2021 |
| Bwrdd Portffolio - Cymeradwyo Achos Busnes y Portffolio wedi'i ddiweddaru | 3 Medi 2021 |
| Bwrdd Uchelgais - Cymeradwyo Achos Busnes y Portffolio wedi'i ddiweddaru | 17 Medi 2021 |
| Cyflwyno dogfennaeth wedi'i diweddaru i Lywodraeth Cymru/y DU i gymeradwyo rhyddhau cyllid 2021-22 | Medi 2021 |
| Y Bwrdd Uchelgais i ystyried ail wedd o achosion busnes amlinellol prosiectau | Medi - Rhagfyr 2021 |
| Y Bwrdd Uchelgais i ystyried Achosion Busnes Llawn Morlais a DSP | Hydref - Rhagfyr 2021 |
| Derbyn cyllid ar gyfer 2021-22 gan Lywodraeth Cymru/y DU | Rhagfyr 2021 |
| Y Bwrdd Uchelgais i ystyried trydedd wedd o achosion busnes amlinellol prosiectau | Ion-Ebrill 2022 |

## 9. Sgôp/Cylch Gorchwyl yr Adolygiad

### Meysydd Ffocws

Mae'r SRO yn gofyn i'r adolygiad PAR ffocysu ar y pwyntiau a ganlyn, yn ogystal â'r cylch gorchwyl safonol:

- A yw'r argymhellion yn y PAR blaenorol wedi cael sylw priodol?
- A yw'r angen am ymyrraeth gan y Cynllun Twf wedi cael ei effeithio gan y newidiadau arwyddocaol (Brexit, Covid, ac ati), a welwyd dros y 12 mis diwethaf?
- A yw'r adnoddau cywir yn eu lle gan y Swyddfa Rheoli Portffolio fel bod modd iddynt gyflawni?
- A yw'r trefniadau llywodraethu'n addas i'r diben ar gyfer cam cyflwyno'r Cynllun Twf?
- A fydd y trefniadau gwireddu buddion sy'n cael eu datblygu yn cefnogi'r Cynllun Twf i gyflawni ei ddeilliannau bwriadedig?

### Porth Rhaglen Safonol 0 - Cylch Gorchwyl

- Adolygwch y deilliannau a'r amcanion ar gyfer y rhaglen (a'r ffordd y maent yn ffitio gyda'i gilydd) a chadarnhewch eu bod yn gwneud y cyfraniad angenrheidiol at strategaeth gyffredinol y sefydliad a'i uwch reolwyr.
- Sicrhewch fod y rhaglen yn cael ei chefnogi gan randdeiliaid allweddol.
- Cadarnhau bod potensial y rhaglen i lwyddo wedi cael ei ystyried yng nghyd-destun ehangach amcanion polisi a chaffael y Llywodraeth, cynlluniau cyflawni a newid y sefydliad ac unrhyw ryng-ddibyniaethau â raglenni neu brosiectau eraill ym mhortffolio'r sefydliad a, lle bo'n berthnasol, rhai sefydliadau eraill.
- Adolygu'r trefniadau ar gyfer arwain, rheoli a monitro'r rhaglen yn ei chyfanrwydd a'r cysylltiadau at rannau unigol ohoni (e.e. at unrhyw brosiectau presennol ym mhortffolio'r rhaglen).

- Adolygu'r trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risgiau'r prif raglen (a risgiau'r prosiectau unigol), gan gynnwys risgiau allanol megis newid blaenoriaethau busnes.
- Gwirio bod y ddarpariaeth ar gyfer adnoddau ariannol ac eraill wedi cael ei gwneud ar gyfer y rhaglen (wedi'u hadnabod ar ddechrau'r prosiect yn y lle cyntaf ac yna ymrwymiad yn ddiweddarach), a bod cynlluniau ar gyfer y gwaith i'w wneud draw i'r cam nesaf yn realistig, gydag adnoddau priodol a digon o bobl gyda digon o brofiad, ac wedi'i awdurdodi.
- Ar ôl yr adolygiad cychwynnol, gwirio'r cynnydd yn erbyn cynlluniau a chyflawniad disgwyliedig y deilliannau.
- Gwirio bod ymgysylltiad â'r farchnad fel sy'n briodol ynghylch dichonolrwydd cyflawni'r deilliant gofynnol.
- Lle bo'n berthnasol, gwirio bod y rhaglen yn rhoi ystyriaeth i ymuno â rhaglenni eraill, boed yn fewnol neu'n allanol.
- Gwerthuso camau i weithredu argymhellion a wnaed mewn unrhyw asesiad cynharach o gyflawnadwyedd.

# 10. <u>Darganfyddiadau manwl y Tîm Adolygu</u>

**10.1 Argymhellion Blaenorol**

10.1.1 Yn gyffredinol, mae'r RT yn canfod bod yr argymhellion o'r adolygiad PAR blaenorol wedi cael sylw priodol a thrylwyr, ac eithrio Rhif 1 o ran dull ar gyfer blaenoriaethu'r prosiect. Nodwn fod argymhelliad 10 ar gyfer y ffocws y PMO ar barodrwydd am y cam cyflwyno yn parhau i fod yn hynod berthnasol wrth i'r rownd bresennol o Achosion Busnes Amlinellol barhau ac wrth i'r Portffolio nesáu at y cam lle bydd yn cael ei gyflwyno'n llawn.

**10.2 Cyd-destun Gweithredol a'r angen am y Cynllun Twf**

10.2.1 Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi bod yn gweithredu mewn amgylchedd anodd a heriol dros y 12 mis diwethaf ac yn ystod y cyfnod hwnnw maent wedi llwyddo i recriwtio a datblygu tîm PMO hynod effeithiol. Bu i nifer o'r rhai a gafodd gyfweliad wneud sylw am ragoriaeth y PMO ac yn amlwg mae parch mawr tuag at arbenigedd a sgiliau'r staff. Roedd y staff PMO a gyfwelwyd yn frwdfrydig, yn fedrus ac yn ymrwymedig ac yn gyfforddus yn eu rolau. Mae'n glir bod arweinyddiaeth y Portffolio a'r PMO yn parhau i gael ei werthfawrogi ar bob lefel, a hynny'n allanol ac yn fewnol.

10.2.2 Gwelwyd symudiad digynsail yn y cyd-destun gweithredol dros y flwyddyn a fu, gyda Brexit a'r gofynion wrth ymateb i bandemig COVID. Mae arweinyddiaeth y Portffolio wedi llwyddo i lywio drwy heriau gweithio o bell ac mae wedi cadw'r momentwm i fynd dros y cyfnod hwn. Clywsom nad yw effeithiau Brexit ar y Portffolio wedi cael eu deall a'u pwyso a'u mesur yn llawn hyd yma. Cymysg y mae effeithiau COVID wedi bod, gydag effaith bositif ar yr angen ar gyfer rhai o'r Rhaglenni, megis Digidol, ond lle mae Tir ac Eiddo a rhai o'r rhaglenni eraill am gael eu heffeithio gan yr ansefydlogrwydd presennol mewn costau adeiladu. Mae'r Portffolio yn fyw i'r heriau hyn ac wrthi'n ystyried mesurau lliniaru. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth sy'n dangos bod yr angen am Gynllun Twf Gogledd Cymru wedi lleihau.

10.2.3 Mae nifer o newidiadau polisi yn ein cyrraedd o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mae iddynt y potensial i effeithio ar y Portffolio. Clywsom bod rhain yn cael eu monitro'n weithredol a bod y PMO yn datblygu polisi a gweithdrefnau (datganiadau

sefyllfa) er cysondeb gweithredu ledled y Portffolio, megis y Datganiad Sefyllfa Newid Hinsawdd ac Ecolegol).

10.2.4 Mae ffocws presennol yr arweinyddiaeth a'r PMO, yn ddealladwy, ar gyrraedd y cerrig milltir ar gyfer cymeradwyo'r Achosion Busnes Amlinellol fel y gellir mynd ati i'w cyflawni. Mae'r RT yn bryderus ynghylch effaith bosib unrhyw newidiadau polisi ar hyfywedd rhai o'r prosiectau (megis Bodelwyddan). Argymhellwn bod yr arweinwyr Portffolio yn bwrw ati i ddefnyddio cynllun o sganio'r gorwel fel bod modd adnabod unrhyw brosiectau newydd posib, rhag ofn i rai o'r prosiectau cyfredol beidio â bod yn hyfyw ac er mwyn ystyried unrhyw newidiadau fydd angen eu gwneud i brosiectau presennol. Dylid datblygu meini prawf er mwyn pennu a yw prosiect yn hyfyw mwyach yn eu herbyn.

**Argymhelliad 1: Dylai'r Portffolio sefydlu trefn o sganio'r gorwel i adnabod prosiectau newydd posib pe byddai'r rhai cyfredol yn troi'n anhyfyw a rhoi ystyriaeth gynnar i unrhyw newidiadau a fydd eu hangen i brosiectau presennol o newidiadau polisi. Dylid datblygu meini prawf er mwyn pennu a yw prosiect yn hyfyw mwyach yn eu herbyn.**

**10.3 Cam Presennol**

10.3.1 Mae'r RT yn cymeradwyo'r PMO am y cynnydd y mae wedi'i wneud wrth ddatblygu ei brosesau a gweithdrefnau allweddol, megis rhoi'r Fframwaith Rheoli Rhaglen a'r meddalwedd yn ei le a datblygu ei ddull Gwireddu Buddion. Mae’n glir fod pawb yn y PMO yn ymwybodol o'r prosesau hyn ac yn eu defnyddio. Mae'r gwaith gwireddu buddion yn benodol wedi bod yn hanfodol o ran datblygiad yr achosion busnes cadarn. Nodwn bod gwersi wedi cael eu dysgu o ddatblygu'r achosion busnes cynnar. Dylai gweithredu'r gwersi hyn olygu y bydd y broses yn dod yn fwy llyfn gyda threigl amser, heb golli ei heffeithiolrwydd. Rydym yn falch o nodi bod y PMO bellach wedi gwreiddio arbenigedd caffael proffesiynol i gynghori'r prosiectau ac sydd wrthi'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i hysbysu'r achosion busnes.

10.3.2 Cawsom ein cyfareddu gan lefel yr hyder sydd i'w weld ymysg rhan-ddeiliaid o ran arbenigedd a gallu’r PMO. Mae'r cyfathrebu a'r ymgysylltiad gan y PMO a'r arweinyddiaeth yn cael ei ystyried o'r radd flaenaf, er gwaethaf y pwysau gwaith mawr hwn yn ystod y cam sefydlu. Rydym yn fodlon bod y dylanwad yn cael ei ffocysu lle mae angen a hynny ar sawl lefel. Fodd bynnag, rydym yn nodi'r risgiau i barhad gydag etholiadau awdurdodau lleol Cymru ar y gorwel yn 2022, a'r trosiant mewn uwch swyddi yn y Bwrdd Uchelgais Economaidd a'r awdurdodau lleol. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch effaith bosib sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol (CJC) ar dirwedd y Portffolio hwn. Bydd angen i'r Portffolio ffocysu ar reoli'r risg hon yn agos yn y tymor canolig, er mwyn sicrhau nad yw'r dylanwad positif presennol mewn meysydd allweddol yn cael ei golli neu'n lleihau. Dylid ystyried cynnwys y risg ar Gofrestr Risg y Portffolio.

10.3.3 Yn y cyd-destun hwn, mae'r RT yn nodi pa mor allweddol yw cynnal dull Rhanbarthol er mwyn llwyddiant Cynllun Twf Gogledd Cymru, gyda'r gallu i gyflawni fel rhanbarth na fyddai'n bosib ar lefel awdurdod lleol unigol. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y potensial i golli'r ffocws rhanbarthol hwn a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar allu Cynllun Twf Gogledd Cymru i gyflawni. Dylid cymryd pob cyfle, yn enwedig drwy fynegi buddion yr achosion busnes, i bwysleisio'r angen hanfodol i ddefnyddio dull Rhanbarthol a'i gynnal.

10.3.4 Er bod y Portffolio yn adrodd ar sawl mis o lithriad yn erbyn ei amserlen wreiddiol mewn rhai meysydd, mae'r RT yn ystyried bod y rhesymau am yr oedi yn gwbl ddealladwy

ac yn gwerthfawrogi y bu lefel gydnabyddedig o or-frwdfrydedd ar y cychwyn. Bellach, gan bod gwell dealltwriaeth o'r amser sydd ei angen i ddatblygu achosion busnes, rydym yn argymell y dylid mynd ati i ail-osod y waelodlin ar gyfer amserlenni'r Portffolio er mwyn eu cymeradwyo, fel bod yr adroddiadau i'r dyfodol yn fwy realistig ac er mwyn osgoi unrhyw risg diangen lle mae rhan-ddeiliaid yn colli hyder.

10.3.5 Clywodd yr RT gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd ynghylch y pwysau ar adnoddau o ganlyniad i'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r modelau 5 achos ar gyfer yr Achosion Busnes Amlinellol. Cytunwyd yn gyffredinol nad oes angen rhagor o adnodd , yn hytrach, mae'n rhaid wrth gynllunio adnoddau yn gadarn, ynghyd â chreu amserlen realistig ynghylch pa bryd fydd yr Achosion Busnes Amlinellol a'r Achosion Busnes Llawn yn dod ymlaen er cymeradwyaeth.

**Argymhelliad 2: Dylai'r Portffolio ail-sefydlu ei gerrig milltir a'i gynlluniau rhaglenni allweddol cyn gynted â phosib a cheisio cymeradwyaeth.**

**10.4 Effeithiolrwydd llywodraethu ar gyfer y cam cyflawni**

10.4.1 Ymddengys bod y trefniadau llywodraethu presennol yn effeithiol gan mwyaf ar gyfer y cam cymeradwyo achos busnes presennol. Fodd bynnag, mae problem gyda cholli cworwm yn ystod cyfarfod Bwrdd Uchelgais Economaidd (BUE) diweddar wedi tynnu sylw at yr angen am fecanwaith gadarn i ymdrin ag amgylchiadau lle na ellir cael cymeradwyaeth/cytundeb mewn cyfarfod bwrdd ffurfiol. Deallwn fod y trefniadau cyfredol yn golygu y gellir penodi dirprwy gyda grym pleidleisio ar gyfer pob un o'r 6 aelod gyda phleidlais sydd ar y BUE, ond nid yw hyn wedi bod yn ei le drwy'r amser. Dylid gofyn i aelodau'r BUE sydd â phleidlais fod yn fwy trylwyr wrth iddynt ddefnyddio'r cyfleuster hwn. Yn ogystal, dylid cytuno ar fecanwaith "y tu allan i gyfarfod" ar gyfer cynigion brys. Bydd hyn yn benodol bwysig yn ystod y prif gam cyflawni pan ellir bod angen gwneud penderfyniadau ar fwy o frys.

**Argymhelliad 3: Er mwyn cynnal cworwm ar gyfer penderfyniadau allweddol a chyflawni'r meini prawf cytunedig, dylai aelodau'r Bwrdd Uchelgais sydd â phleidlais sicrhau eu bod yn penodi dirprwyon. Yn ogystal, dylid cytuno ar fecanwaith "allan o bwyllgor" ar gyfer cymeradwyo materion brys ar gyfer y wedd cyflawni.**

10.4.2 Nododd yr RT bod y broses o graffu'r achosion busnes yn cael ei disgrifio fel un nad oes iddi ddigon o her gan yr holl ran-ddeiliaid sy'n bresennol. Roedd hyn yn benodol wir o ran buddion, gyda'r rhai a gyfwelwyd yn chwilio am ragor o arweiniad gan aelodau'r bwrdd fel bod modd osgoi gwaith ofer a rhoi hyder. Nodwn hefyd bod rheidrwydd ar reolwyr y rhaglen a chadeiryddion y bwrdd i fod yn drylwyr wrth ofyn am her a chyfeiriad gan aelodau'r bwrdd.

10.4.3 O ran y byrddau rhaglen, bu i sawl un a gyfwelwyd wneud sylw ar y gymysgedd o sgiliau a phrofiad a theimlwyd bod angen rhagor o brofiad o ddatblygiad economaidd. Ar gyfer y cam cyflawni, dylid ystyried sicrhau bod gan yr holl fyrddau ddigon o gynrychiolaeth o'r ochr economaidd a datblygu.

**10.5 Buddsoddiad Sector Preifat**

10.5.1 Noda'r RT bod cael digon o fuddsoddiad sector preifat ymrwymedig yn rhan hanfodol ar gyfer cyflawni a llwyddiant y rhaglenni yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru. Deuthum o hyd i gymysgedd o brosiectau allanol gyda chyllid wedi'i ymrwymo, prosiectau

eraill a adroddwyd bod ganddynt nifer o gyllidwyr posib sector preifat gyda llawer o ddiddordeb (e.e. rhai o'r prosiectau Rhaglen Ddigidol) a thrydydd cyfres o brosiectau lle nad oes diddordeb gan y sector preifat wedi'i nodi ac, efallai nad yw wedi cael ei ystyried eto. Mae'n ymddangos nad oes llawer o drefn ar y dull o ddenu diddordeb gan y sector preifat. Nodwn bod y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Rheolwr Gweithrediadau wedi bod yn siarad yn weithredol â buddsoddwyr posib, ond nid yw lefel yr ymrwymiad sy'n deillio o'r trafodaethau hyn yn amlwg hyd yma.

10.5.2 Argymhellwn bod strategaeth lefel Portffolio ar gyfer denu a sicrhau buddsoddiad preifat ac o sectorau eraill yn cael ei datblygu a'i mabwysiadu.

**Argymhelliad 4: Dylid datblygu a mabwysiadu strategaeth ar lefel Portffolio er mwyn denu a sicrhau buddsoddiad sector preifat ac arall.**

**10.6 Cyllid**

10.6.1 Mae'r Portffolio wedi derbyn ei ddyraniad cyllid blynyddol ar gyfer 2021/22. Mae tanwariant ar hyn o bryd, yn sgil oedi yn achosion busnes prosiectau, fel y nodwyd eisoes. Mae'r RT ar ddeall bod peth o'r tanwariant refeniw hwn bellach wedi cael ei drosglwyddo i'r reserfau.

10.6.2 Mae'r RT yn nodi bod penderfyniad diweddar HMT i ddod â'r cyllid yn ei flaen i gyfnod o 10 mlynedd, yn hytrach na'r cyfnod presennol o 15 mlynedd, yn cael ei ystyried yn bositif o ran Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd y cyfnod llai yn galluogi awdurdodau lleol i fenthyca llai a chael taliadau llog cysylltiedig is, ac mae cyflawniad y Portffolio eisoes yn seiliedig ar broffil o 8 i 10 mlynedd.

10.6.3 Mae'r RT yn nodi bod y PMO yn cael ei ariannu'n rhannol gan gyllid WEFO, ynghyd â rhan ariannu rhai o'r prosiectau, e.e. Morlais. Mae'r cyllid WEFO i fod i ddod i ben yn 2023. Yn amlwg, bydd hyn yn creu bwlch cyllido a allai beri risg arwyddocaol i'r cyflawni os nad yw'n cael ei ariannu drwy ffynonellau eraill. Mae'r PMO wedi gwneud peth gwaith i adnabod cyllid amgen posib, er, ar y cam hwn, nid oes strategaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn yn ei lle. Felly, erys hyn yn risg nad yw'n ymddangos yng nghofrestr risg y Portffolio.

10.6.4 Ni fu cais y Portffolio am gyllid refeniw fel rhan o Gytundeb Terfynol y Cynllun yn llwyddiannus. Mae'r diffyg cyllid refeniw hwn yn dechrau effeithio ar allu Cynllun Twf Gogledd Cymru i gyflawni, sy'n fwyaf nodedig mewn meysydd megis Sgiliau, Hyfforddiant a Phrentisiaethau a'r gallu i ymgysylltu ar raddfa gyda'r gymuned fusnes sydd mor hanfodol er mwyn denu diddordeb a buddsoddiad gan y sector preifat. Mae'r RT yn ystyried y gallai hyn fod yn risg arwyddocaol i'r Portffolio ond ni fu modd i ni adnabod hyn ar Gofrestr Risg y Portffolio. Dylai'r Portffolio adolygu'r risgiau a chanlyniadau'r diffyg arian refeniw ac ystyried sut ellir lliniaru'r effeithiau hyn.

**Argymhelliad 5: Dylai'r Portffolio adolygu risgiau a chanlyniadau diffyg cyllid refeniw ac ystyried sut ellir lliniaru'r effeithiau**.

**10.7 Adnoddau**

10.7.1 Mae'r PMO yn adrodd bod ganddi adnoddau llawn fwy neu lai, gyda recriwtio i ddwy swydd bellach wrthi'n digwydd. Roedd yr RT wedi'i synnu o weld gallu a phrofiad y staff PMO a gafodd eu cyfweld. Derbyniwyd rhai sylwadau bod angen mwy o brofiad o brosiectau adeiladu; fodd bynnag, nododd yr RT bod yma arbenigedd da yn y maes hwn

yn y Rhaglen Tir ac Eiddo ac y gellir ei ddefnyddio, os byddai angen, i gefnogi prosiectau a rhaglenni eraill.

10.7.2 Mae'r RT o'r farn bod digon o adnoddau addas yn y PMO o ran y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni yn erbyn y Portffolio presennol. Bydd angen ail-asesu'r sefyllfa os bydd unrhyw newidiadau yn y Portffolio neu yn natur y prosiectau.

10.7.3 Mae'r RT yn nodi bod y Portffolio ar fin cyrraedd y prif gam cyflawni sy'n cael ei gydnabod fel un sydd angen newid sylweddol mewn ffocws ac yn y galw ar adnoddau'r PMO a'r partneriaid.

**10.8 Cyfleoedd**

10.8.1 Mae'r RT yn canmol Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd eisoes yn cael ei ystyried yn enghraifft ragorol ymysg rhaglenni Cynlluniau Twf. Rydym yn annog y Portffolio i adeiladu ar hyn a chymryd y cyfle i osod her iddo ef ei hun i fod yn enghraifft ragorol yn y meysydd Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon sy'n dod yn bynciau gyda brys cynyddol arnynt o ran agenda polisi ar lefel Cymru a'r DU.

10.8.2 Gallai'r argymhelliad a wnaed eisoes yn yr adroddiad ynghylch yr angen am sganio'r gorwel helpu i adnabod cyfleoedd pellach. Gyda phortffolio o'r maint ac ar y raddfa hon, a'r cyfnod o amser o'r cychwyn i'r cyflawni, mae'r RT yn nodi ei bod yn anochel y bydd angen gwneud addasiadau i gynnal hyfywedd ac i gyflawni'r buddion wrth i'r amgylchedd ar gyfer cyflawni a'r anghenion rhanbarthol ddatblygu. Dylid ystyried proses rheoli newid y PMO fel cerbyd i adnabod a hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n codi o'r addasiadau angenrheidiol.

## 11. Adolygiad Sicrwydd nesaf

Mae'r RT yn awgrymu y dylid cynnal adolygiad PAR arall o fewn 12 mis i adolygu cynnydd y rhaglenni yn y cam cyflawni cychwynnol.

# ATODIAD A - Rhestr o'r sawl a gawsant eu cyfweld

Cafodd y rhan-ddeiliaid a ganlyn eu cyfweld yn ystod yr adolygiad:

| Enw | Sefydliad a Swydd |
|---|---|
| Alwen Williams | Y Cyfarwyddwr Portffolio |
| Cyng. Dyfrig Siencyn | Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Hedd Vaughan-Evans | Rheolwr Gweithrediadau'r PMO |
| Sian Lloyd Roberts | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| Sara Jones a Carol Greeves | Rheolwr Prosiect ac Ymgynghorydd Caffael y PMO |
| Robyn Lovelock | Arweinydd Gwireddu Buddion y PMO a'r Rheolwr Rhaglen ar gyfer Bwyd-amaeth a Thwristiaeth ac Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel |
| Askar Sherbani | Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes |
| Steve Bayley / Dylan Rhys Griffiths | SRO - Rhaglen Ddigidol / Dirprwy SRO y Rhaglen |
| Stuart Whitfield | Rheolwr Rhaglen Ddigidol |
| Kirrie Moore | Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol |
| Elen Williams | Rhaglen Ddigidol - SRO Prosiect (prosiect Last Few %) |
| Gareth Ashman | Swyddfa Cymru y DU |
| Dewi Williams | Tîm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru |
| Dylan Williams | SRO - Rhaglen Ynni Carbon Isel |
| Elgan Roberts | Rhaglen Ynni Carbon Isel, Rheolwr Prosiect Ynni Lleol Clyfar |
| Cyng. Llinos Medi Huws | Aelod Arweiniol y Rhaglen Ynni Carbon Isel |
| Andrew Farrow | SRO - Rhaglen Tir ac Eiddo |
| David Mathews | Rheolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo |
| Cyng. Hugh Evans | Aelod Arweiniol Tir ac Eiddo ar gyfer y Rhaglen |
| Cyng. Charlie McCoubrey | Aelod Arweiniol y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth |
| Paul Bevan | Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth - SRO y Prosiect (Canolbwynt Economi Gwledig),<br>Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel - SRO y Rhaglen |
| Steve Jackson | Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel - SRO y Rhaglen Fferm Carbon Niwtral Llysfasi |
| Laura Gough | Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel - Cynrychiolydd Prosiect Canolfan Arloesi Peirianneg ac Opteg (EEOC) |
| Morag McDonald | Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel - SRO y Rhaglen ar gyfer y Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol (CEB) |
| Lee Robinson | Trafnidiaeth Cymru - SRO y Prosiect (Prosiect Coridor Cysylltiedig) |

## ATODIAD B - Cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad sicrwydd blaenorol (24 - 27 Awst 2020)

| Argymhelliad | Cynnydd / statws (Traciwr PMO) |
|---|---|
| Dylai'r SRO sicrhau bod portffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru yn sefydlu cylch adolygu rheolaidd (blynyddol, gan gymryd golwg fanwl bob 5 mlynedd, er enghraifft), i brofi perthnasedd a chymhwysedd ei raglenni a'i brosiectau a'u cyfeiriad). | Mae cylch PAR Portffolio/Rhaglen wedi cael ei gytuno â Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyson a chadarn yn eu lle ar gyfer holl raglenni a phrosiectau'r Portffolio, gyda llywodraethu clir a chadarn ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyflawni gan drydydd parti. | Mae fframwaith PMF newydd wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei rannu â phartneriaid. Mae gofyn i bob ariannwr prosiect gael Byrddau Prosiect ac SRO yn eu lle gyda threfniadau adrodd i'r Bwrdd Uchelgais wedi'u nodi mewn Cylch Gorchwyl. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli cyflawni'r holl brosiectau yn cael eu datblygu ac yn eu lle cyn yr ymrwymir i gontractau cyflawni. | Mae fframwaith PMF newydd wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei rannu â phartneriaid. Mae'r PMO wedi adnabod ac wedi caffael Celoxis, meddalwedd rheoli prosiect, fydd yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y portffolio. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod mapio buddion cadarn yn digwydd ar draws yr holl raglenni sy'n cael eu profi yn erbyn Gweledigaeth y Cynllun Twf a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bod y dull hwn o gyflawni yn cael ei lywio gan fuddion. | Mae'r PMO wedi adolygu'r dull o gyflawni buddion ar gyfer y Cynllun Twf yn gyfan gwbl, gyda Chynllun Gwireddu Buddion newydd yn cael ei gwblhau'n derfynol. Mae templed ar gyfer ariannwyd prosiect bellach ar gael. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod mwy o ffocws o fewn diwylliant cyflawni'r Cynllun Twf ar gadw pobl ifanc yn y rhanbarth a chyfathrebu ac ymgysylltu'n briodol â phobl ifanc ar y cam cynharaf bosib er mwyn codi eu dyheadau. | Mae strwythur y tîm bellach yn cynnwys dau Reolwr Prosiect Sgiliau (gan gynnwys un person graddedig). Erbyn hyn mae ein cydweithwyr yn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn rhan o'r tîm PMO, gan sicrhau gwell cydweithio o ddydd i ddydd a gallu i ganolbwyntio ar sgiliau, yn benodol ar gyfer pobl ifanc. Mae brand a gwefan newydd wrthi'n cael eu datblygu a bydd hyn yn gymorth wrth geisio ymgysylltu â phobl ifanc. |
| Dylai'r SRO geisio cael eglurder gan Lywodraethau Cymru a'r DU ynghylch lefel yr hyblygrwydd o ran dyrannu arian o fewn y Portffolio er mwyn hwyluso newidiadau mewn prosiectau dros amser wrth i'r Portffolio fwrw yn ei flaen, gan y bydd hyn yn bwysig er mwyn cyflawni'r buddion i'r eithaf. | Mae'r Cynllun Twf Terfynol wedi ei sicrhau ar sail portffolio cyfan (nid cyllid ar gyfer prosiectau unigol), sy'n rhoi hyblygrwydd i'r Bwrdd wneud newidiadau i'r proffil gwario, cyhyd ag y bo'r targedau cyffredinol yn cael eu cwrdd. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod Pecyn Monitro'r Cynllun Twf yn cael ei ddatblygu ar gyfer partneriaid sy'n cyflawni, gan gynnwys canllawiau a thempledi. Yn ogystal, dylid datblygu PIDs ar gyfer pob lefel o gyflawni'r Portffolio. | Ar hyn o bryd, mae'r holl brosiectau yn adrodd drwy adroddiadau tynnu sylw misol. Mae templed adrodd newydd wedi cael ei ddyfeisio fel rhan o'r PMF ac mae'n cael ei adeiladu i mewn i Celoxis (porthol meddalwedd Rheoli Prosiect newydd) er mwyn i bartneriaid ei ddefnyddio. |
| Dylai'r SRO sicrhau ei fod yn aseinio cyfrifoldeb penodol am fod yn "swyddog arweiniol" o ran rheoli risgiau, problemau a buddion i unigolion enwebedig yn Swyddfa'r Portffolio, gan ffurfioli unrhyw ddyraniadau anffurfiol lle bo hynny'n briodol. | Mae Swyddogion Arweiniol wedi cael eu haseinio ar gyfer rhoi sicrwydd, rheoli risgiau, rheoli newid, gwireddu buddion a monitro a gwerthuso. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod gan y Portffolio fynediad at sgiliau caffael prosiect/rhaglenni cymhleth lefel | Mae strwythur y tîm wedi cael ei addasu i gynnwys Rheolwr Caffael a Gwerth |

| | |
|---|---|
| uchel penodol i ddatblygu a gyrru'r dull caffael Portffolio a darparu arweiniad, mentora a chefnogaeth i gaffael rhaglenni a phrosiectau unigol. | Cymdeithasol (bellach yn y swydd) ac mae ymgynghorydd caffael allanol wedi cael ei benodi i ddarparu cefnogaeth ychwanegol. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod Swyddfa'r Rhaglen yn cynyddu ei ffocws ar barodrwydd ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf i sicrhau bod yr holl brosesau a rheolaethau angenrheidiol yn eu lle. | Mae'r PMO yn canolbwyntio'n llawn ar gyflawni'r Cynllun Twf gyda 3 Cynllun Busnes Amlinellol yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais hyd yma a'r Achosion Busnes Llawn wedi'i amserlennu ar gyfer diwedd 2021. |
| Dylai'r SRO sicrhau bod Swyddfa'r Rhaglen yn datblygu Proffiliau Risg Prosiect Rhaglen ac unigol a dull o Flaenoriaethu'r Prosiect i hysbysu a chefnogi rheolaeth y Portffolio. | Mae Cofrestrau Risg y Portffolio a'r Rhaglen yn eu lle. |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17 Medi 2021**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | *Diweddariad Logo* |
| **AWDUR:** | *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio* |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Diweddaru'r Bwrdd Uchelgais ar y gwaith o ddatblygu'r logo newydd.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. I gymeradwyo'r logo diwygiedig ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Datblygwyd gwefan a brand cyfredol y Bwrdd Uchelgais yn ystod dyddiau cynnar sefydlu'r Bwrdd. Gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi, a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn symud i wedd cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf, roedd yn amserol diwygio ac ail-lansio'r brand a'r wefan.

4.2. Yn cyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 30ain Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Bwrdd y Brand cyffredinol (arddull, lliwiau ayyb.) ond gofynnodd bod gwaith pellach yn cael ei wneud i adolygu'r logo gan ystyried yr adborth a dderbyniwyd yn y cyfarfod.

4.3. Roedd y logo arfaethedig a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod ar 30ain Gorffennaf 2021, fel a ganlyn:

Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales

4.4. Gweithiodd y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda Tinint (y cwmni a gomisiynwyd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i ail-frandio a datblygu'r gwefan newydd) i ddatblygu fersiynau amgen o'r logo, gan ystyried adborth y Bwrdd mewn perthynas â nifer a maint y cydrannau gwreiddiol a gynhwysir yn y logo.

4.5. Ystyriwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio y fersiynau amrywiol o'r logo gyda 5 a 7 cydran a cyflwynwyd yr opsiwn dewisol i'r Bwrdd Portffolio ar $3^{ydd}$ Medi 2021.

4.6. Yr opsiwn a ffafrir, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Portffolio oedd fel a ganlyn:

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.7. Mae'r logo yn gynrychiolaeth haniaethol o Ogledd Cymru gyda'r saethau'n cynrychioli buddsoddiad i mewn ac allan, cydweithio ac egni o fewn y rhanbarth.

4.8. Unwaith y bydd y brand yn cael ei gymeradwyo, bydd canllawiau brandio yn cael eu datblygu a'u rhannu i amddiffyn defnydd o'r brand.

4.9. Mae'r gwaith datblygu'r gwefan newydd wedi parhau er gwaethaf yr oedi yn cymeradwyo logo'r brand. Nod y Swyddfa Rheoli Portffolio nawr yw lansio'r wefan newydd yn gynnar yn yr hydref.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae angen i'r protocolau ar gyfer defnyddio'r brand gael eu nodi a'i rheoli'n glir.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Bydd y wefan yn hygyrch gan gydymffurfio â gofynion hygyrchedd diweddaraf yr UE.

8.2. Mae'r canllawiau brand hefyd yn ystyried hygyrchedd.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Yn dilyn y cyflwyniad gwreiddiol i'r Bwrdd ar $30^{ain}$ Gorffennaf 2021, cafodd y logo arfaethedig newydd ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Portffolio ar $3^{ydd}$ Medi 2021.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Unrhyw sylwadau i'w cyflwyno yn y cyfarfod.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."